Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Papur y Bwrdd

2 Hydref 2014

Teitl y Papur:	**Adroddiad ar Berfformiad 2014/15** **Adroddiad ar y Flwyddyn (1 Ebrill i 31 Gorffennaf 2014)**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B B 64.14**
Noddwr y Papur:	**Tîm Gweithredol**
Paratowyd y Papur gan:	**Clive Thomas a John Hogg**

Pwrpas y Papur:	**Ystyried perfformiad CNC yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf (rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2014)**
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd: • Graffu ar berfformiad a'i lywodraethu er mwyn adrodd arno i Lywodraeth Cymru • Rhoi cyngor a chymorth ar addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad • Cymeradwyo ychwanegiadau/newidiadau i'r Fframwaith Perfformiad
Angen Penderfyniad:	Cymeradwyo'r adroddiad ar berfformiad

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Amgylchedd Da yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15. **Effaith ar yr Economi**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Da i Fusnes yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15. **Effaith ar y Gymuned**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Da i Bobl yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15. **Effaith ar Wybodaeth**: Mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos cynnydd o ran cyflawni dangosyddion a thargedau Gwybodaeth Dda yn erbyn blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes 2014/15.

Pwnc

1. Datblygwyd Fframwaith Perfformiad mewn ymateb i'r gofyniad penodol yn ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2014/15. Y Fframwaith yw un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein cyflawniad a chefnogi cynlluniau strategol. Cafodd y Fframwaith ei ystyried a'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ar 14 Mai 2014.

2. Mae Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn elfen o'r Fframwaith Perfformiad. Ar ôl cytuno ar y Fframwaith ar 14 Mai 2014 gofynnwyd i is-grŵp y Bwrdd ar Berfformiad ystyried sut i fynd i'r afael â sylwadau'r Bwrdd yn y Dangosfwrdd. Cwblhawyd y gwaith hwn gyda swyddogion ym mis Mehefin 2014 a chyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd ar 9 Gorffennaf 2014.

3. Mae'r cylch cyntaf o adroddiadau perfformiad, ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf wedi'i gwblhau a'r adroddiad ar berfformiad wedi'i baratoi i'r Bwrdd graffu arno cyn ei anfon i Lywodraeth Cymru. Cyflwynir adroddiadau perfformiad ar yr adroddiad hwn bob pedwar mis.

Crynodeb

4. Mae'r adroddiad perfformiad hwn, fel y cytunwyd gan y Bwrdd, yn cynnwys elfennau penodol:

- Adroddiad Perfformiad Cryno un dudalen yn darparu trosolwg un dudalen o berfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2014/17, Cynllun Busnes 2014/15 a'r Achos Busnes dros sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Adroddiadau Cynnydd yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ar ein dangosyddion corfforaethol a mesurau perfformiad ar gyfer pob un o'n pum Rhaglen Gorfforaethol.
- Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn rhoi trosolwg un dudalen o sut rydym yn gwneud cynnydd gyda thargedau ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15 ac ychydig o ddangosyddion.

5. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Graffu a llywodraethu ar berfformiad, fel y gellir adrodd arno i Lywodraeth Cymru
- Rhoi cyngor a chymorth ar addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad

6. Mae ystyried perfformiad ar lefelau Corfforaethol a Chynllun Busnes yn bwysig fel y gall y Bwrdd ddarparu dealltwriaeth o gynllunio strategol. Un o ofynion ein cylch gwaith ar gyfer 2014/15 yw ein bod yn defnyddio dull 'Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau' (RBA) ar gyfer cynllunio a pherfformiad.

- Mae'r lefel Gorfforaethol yn dangos dangosyddion sy'n adlewyrchu a ydym yn cyflawni ein huchelgais "da i" ar gyfer pob Rhaglen. Dyma lefel Cymru, neu "boblogaeth gyfan" RBA.

- Mae’r lefel Busnes yn dangos mesurau perfformiad cynnydd tuag at gyflawni targedau ein Cynllun Busnes. Dyma lefel cyfraniad, neu “berfformiad” CNC RBA.

7. Drwy’r ffordd hon mae ein Fframwaith Perfformiad yn ein galluogi i ystyried cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru at gyflawni canlyniad, gan gydnabod ar yr un pryd nad yw cyflawni’r amcan hwnnw’n llwyr ddibynnol ar weithgarwch Cyfoeth Naturiol Cymru.

8. Mae Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn dangos perfformiad y 35 mesur ar draws y pum Rhaglen Gorfforaethol. Rydym hefyd yn dangos y sefyllfa yn erbyn pum dangosydd[1] ar gais y Bwrdd. Yn gryno, mae yna:

- 21 “gwyrdd”
- 14 “oren”
- 3 “coch”
- 2 ddangosydd lle nad yw graddfa coch/oren/gwyrdd yn berthnasol ar hyn o bryd[2]. Dangoswyd gwybodaeth am dueddiadau’r mesurau hyn sydd wedi parhau o ddangosfwrdd perfformiad 2013/14.

9. Mae’r tri adroddiad “coch” fel a ganlyn:

- *Rydym yn cyflawni ein rôl fel ymgynghorai statudol wrth ymateb i ymgynghoriadau cynllunio* (perfformiad 70% yn erbyn targed o 90%): Rydym yn methu cyflawni amserlenni gofynnol ar gyfer cyflawni ein rôl fel ymgynghorai statudol. Rydym yn rhagweld y byddwn yn gwella perfformiad dros y flwyddyn drwy: Sefydlu tîm pwrpasol yng nghyfarwyddiaeth gweithrediadau’r gogledd a’r canolbarth (i gyfateb i dîm y de); cynyddu niferoedd staff ar gyfer y maes gwaith hwn; mireinio a chyflwyno canllawiau gwell i staff, a mwy o ymgynghori ag awdurdodau lleol.
- *Mae cyflwr nodweddion ar safleoedd yn gwella* (perfformiad o 23%-33% yn erbyn y targed o 95% a nodir yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru): Mae cyflwr nodweddion safleoedd yn sylweddol is na disgwyliad y Strategaeth. Dylid cydnabod na fydd gwaith CNC ei hun yn sicrhau’r gwelliannau angenrheidiol yn y maes hwn. Mae llawer o staff ein tîm safleoedd yn cael eu cyfeirio i fodloni gofynion ymgynghoriad Glastir, er ein bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd y broses hon, a fydd yn rhyddhau mwy o amser i wneud gwaith gwella safleoedd. Bydd Cynllun After LIFE, LIFE N2K hefyd yn nodi’r camau gweithredu y gallai CNC (a rhanddeiliaid allweddol eraill) eu cymryd, y blaenoriaethau perthnasol a’r gofynion o ran adnoddau.

---

[1] Y dangosyddion yw: Ee: Amgylchedd morol, daearol a dŵr croyw; Ea: Amgylchedd dŵr; Bd: Ein rôl fel ymgynghorai staduol; Be: Cynhyrchu incwm; Ob: Mynegai ymgysylltu â staff.

[2] Y dangosyddion yw: Mae’r amgylchedd dŵr yn gwella (h.y. Dangosydd Ea: Amgylchedd dŵr): Ar gael yn 2015/16; Mae gan bawb hyder yn ein llwyddiant cyfunol (h.y. Dangosdd Ob: Mynegai ymgysylltu â staff): Ar gael ar gyfer diwedd blwyddyn 2014/15.

- *Rydym yn gwella iechyd, diogelwch a lles y gweithlu* (perfformiad 21 o ddigwyddiadau colli amser trydydd parti yn erbyn targed o ddim mwy na 5): Mae'r mesur hwn yn cyfeirio at ein gweithlu, felly ein bwriad ar gyfer y dyfodol yw adrodd ar ddigwyddiadau colli amser i staff yn unig,gan olrhain digwyddiadau colli amser i drydydd partïon ar yr un pryd.

10. Argymhellir darparu gwybodaeth fanylach a thrafodaeth ar y tri 'coch' uchod yng nghyfarfod y Bwrdd.

11. Derbyniodd y Cadeirydd lythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar 19 Awst 2014 a oedd yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru adlewyrchu'r dull newydd o ymdrin â phryfed peillio yn y Fframwaith Perfformiad. Gyda chymeradwyaeth y Bwrdd, byddwn yn ychwanegu'r mesur perthnasol o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15.

12. Dyma'n hadroddiad cyntaf o'n Fframwaith Perfformiad. Gwahoddir y Bwrdd i roi sylwadau ar y defnydd o'r Fframwaith i adrodd ar berfformiad ac ar ddefnyddio'r Fframwaith yn y dyfodol.

Camau Nesaf

13. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, byddwn yn anfon ac yn trafod yr adroddiad ar berfformiad gyda'n Hadran Noddi yn Llywodraeth Cymru.

Risgiau

14. Pe na bai'r Bwrdd yn craffu'n drylwyr ar ein perfformiad mae yna berygl y byddem yn methu â chyflawni ein Cynlluniau Corfforaethol a Busnes. Byddai'r Bwrdd hefyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd i gyflawni gwaith craffu a llywodraethu.

Goblygiadau Ariannol

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol o ran darparu'r Fframwaith Perfformiad.

Cyfathrebu

16. Bydd yr adroddiad ar berfformiad yn gofyn am gyfathrebu gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon.

17. Bydd copi o'r adroddiad ar berfformiad yn cael ei roi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth i'r cyhoedd ac eraill.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

18. Amherthnasol.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad ar berfformiad 2014/15 cyfnod 1 (1 Ebrill i 31 Gorffennaf 2014).